ADRODDIAD

# Cyllideb Derfynol 2023 i 2024: Papur y cyd Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru

Adroddiad gan Bwyllgor Cyllid y Cytundeb Cydweithredu ar gyllideb 2023 i 2024.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 7 Mawrth 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 20 Mawrth 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyllideb-derfynol-2023-i-2024-papur-y-cyd-llywodraeth-cymru-a-phlaid-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Crynodeb

Cyd-destun

Paratoi Cyllideb

Cyllid ar gyfer rhaglen polisi a rennir

Dylanwad ar feysydd eraill

Meysydd blaenoriaeth

Atodiad A



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyllideb-derfynol-2023-i-2024-papur-y-cyd-llywodraeth-cymru-a-phlaid-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Crynodeb

Ers dechrau'r Cytundeb Cydweithio ar 1 Rhagfyr 2021, bu ymgysylltu rheolaidd ac adeiladol rhwng y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a'r Aelod Dynodedig Arweiniol ar ystod o faterion cyllidebol. Mae hyn wedi cynnwys saith cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor Cyllid, hyd at ddiwedd mis Chwefror 2023, yn cwmpasu Cyllidebau Drafft, Terfynol ac Atodol a materion cysylltiedig. Yn ogystal, cynhaliwyd tua pedwar ar ddeg o gyfarfodydd dwyochrog rhwng y Gweinidog a'r Aelod Dynodedig Arweiniol yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys sesiynau briffio rheolaidd yn gysylltiedig â digwyddiadau cyllidol Llywodraeth y DU.

Yn ogystal â pharhau i ddiogelu ymrwymiadau ariannu'r Cytundeb Cydweithio, mae'r ymgysylltu cynhyrchiol hwn wedi sicrhau bod cyllid ychwanegol hefyd wedi'i ddarparu (nodir manylion pellach isod); a bydd meysydd eraill sydd o ddiddordeb ar y cyd hefyd yn derbyn cyllid ychwanegol, yn enwedig mewn perthynas â'r argyfwng costau byw a phwysau ehangach ar ein gwasanaethau cyhoeddus gyda phwyslais ar ymdrechion ar yr agenda ataliol.

## Cyd-destun i Gyllideb 2023 i 2024

Roedd y canlynol yn gefnlen i broses Cyllideb 2023 i 2024:

- Mae Cyllideb 2023 i 2024 yn adeiladu ar y dyraniadau dangosol a gytunwyd fel rhan o'r Adolygiad Gwariant tair blynedd a gytunwyd yn 2022. (Cyhoeddwyd Adolygiad Gwariant 2022-25 yn ddrafft ym mis Rhagfyr 2021 ar gyfer cyfnod y 3 blynedd ganlynol. Roedd yn cwmpasu'r Gyllideb ar gyfer 2022-23 a chynlluniau gwariant dangosol ar gyfer 2023-24 a 2024-25. Fe'i pasiwyd gan y Senedd ym mis Mawrth 2022.) Nod hynny oedd darparu cymaint o sicrwydd â phosib ar gyfer gwasanaethau sy'n dibynnu ar gyllid gan Lywodraeth Cymru am y tair blynedd nesaf. Roedd hefyd yn nodi'r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyllideb-derfynol-2023-i-2024-papur-y-cyd-llywodraeth-cymru-a-phlaid-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

dyraniadau cyllidebol ar gyfer tri ar ddeg o feysydd penodol yn y Cytundeb Cydweithio.
- Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymarfer ail-flaenoriaethu fel rhan o'r paratoadau ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2023-24, gan geisio rhyddhau arian o bortffolios i adleoli cyllid i fynd i'r afael â phwysau ar wasanaethau cyhoeddus, diogelu'r Rhaglen Lywodraethu – y mae'r Cytundeb Cydweithredu yn rhan allweddol ohoni – a helpu i liniaru effeithiau'r argyfwng costau byw.
- Rhoddwyd ychydig o arian ychwanegol i Lywodraeth Cymru oherwydd Datganiad yr Hydref (£1.2bn dros y ddwy flynedd nesaf); dyrannwyd hyn yn y Gyllideb Ddrafft a bydd yn cael ei gadarnhau yng Nghyllideb Derfynol 2023 i 2024.

## Paratoi Cyllideb 2023 i 2024

- Roedd tair egwyddor yn sail i benderfyniadau Llywodraeth Cymru wrth lunio Cyllideb Ddrafft 2023-24: gwarchod gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen a'n huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol; parhau i ddarparu cymorth i'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan yr argyfwng costau byw; a chefnogi ein heconomi drwy gyfnod dirwasgiadol. Canlyniad hyn oedd nifer o ddyraniadau, mewn meysydd lle mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gan Blaid Cymru ddiddordeb brwd, gan gynnwys:
  - £227m ychwanegol i lywodraeth leol, gan gynnwys cyllid i ysgolion a gofal cymdeithasol
  - £165m ychwanegol i GIG Cymru i helpu i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen
  - £40m i gefnogi trafnidiaeth gyhoeddus
  - £18.8m ychwanegol ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol
  - £10m i gefnogi tai a digartrefedd
  - £9m ar gyfer adrannau chweched dosbarth ac Addysg Bellach
  - £9m ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyllideb-derfynol-2023-i-2024-papur-y-cyd-llywodraeth-cymru-a-phlaid-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

    - £5.5m ar gyfer y cynllun Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau mewn ymateb i’r pandemig
    - £4.5m i gefnogi plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol
- Diogelwyd y pedwar-deg-chwech o feysydd yn rhaglen bolisi a rennir y Cytundeb Cydweithio yn ystod y broses hon. Arweiniodd hyn at ddiogelu pob un o’r tri ar ddeg o ddyraniadau cyllidebol, er gwaethaf y sefyllfa gyllidebol arbennig o heriol. Yn wahanol i feysydd gweithgarwch eraill, nid oeddent yn ddarostyngedig i ail-flaenoriaethu, gostyngiadau mewn cyllid na phroffil cyflenwi diwygiedig.
- Yn ogystal, mae'r holl arian a ddyrannwyd i ymrwymiadau’r Cytundeb Cydweithio ar gyfer blwyddyn ariannol 2022 i 2023 wedi cael ei ddiwygio a'i ail-broffilio lle mae tanwariant fel nad oes unrhyw gyllid yn cael ei golli o ddyraniadau’r Cytundeb Cydweithio mewn unrhyw ran o'r Llywodraeth.

Mae cyfres o gyfarfodydd dwyochrog rhwng Gweinidogion unigol ac Aelodau Dynodedig wedi archwilio cyllidebau portffolio unigol ac wedi sicrhau bod yr ymrwymiadau yn y Cytundeb Cydweithio ar y trywydd iawn a bod y cyllid a'r adnoddau priodol yn eu lle i gyflawni'r rhaglen bolisi a rennir. Byddwn ni'n parhau i fonitro'r rhain yn agos fel rhan o gyfarfodydd dwyochrog rheolaidd yn ogystal â'r Cyd-bwyllgorau Polisi a'r Bwrdd Trosolwg. Mae'r set ddiwygiedig o broffiliau wedi'u cytuno gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a'r Aelod Dynodedig Arweiniol.

## Cyllid priodol ar gyfer rhaglen polisi a rennir y Cytundeb Cydweithio

- Cafodd £10m o refeniw ychwanegol yn 2023 i 2024 a 2024 i 2025 ei ddyrannu yn y Gyllideb Ddrafft tuag at ehangu gofal plant am ddim i bob plentyn dwy oed a chytundeb y bydd y Bwrdd Trosolwg yn monitro hyn yn rheolaidd - sy'n berthnasol i ymrwymiad rhif 2 y Cytundeb Cydweithio.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyllideb-derfynol-2023-i-2024-papur-y-cyd-llywodraeth-cymru-a-phlaid-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- O'r arian ychwanegol a roddwyd i Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn y Gyllideb Ddrafft, darparwyd £150,000 o refeniw o ganlyniad i'r Cytundeb Cydweithio. Byddwn hefyd yn sicrhau y bydd cyllid i gefnogi'r Strategaeth Ddiwylliant draws-lywodraethol sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd yn helpu i gynnal y sectorau diwylliant, celfyddydau a threftadaeth a'n sefydliadau diwylliannol cenedlaethol.

Dros yr wythnosau diwethaf, mae trafodaethau pellach rhwng y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a'r Aelod Dynodedig wedi tynnu sylw at feysydd yn y Cytundeb  Cydweithio lle bydd cyllid refeniw ychwanegol ar gyfer 2023 i 2024 yn cael ei ddarparu:

- £100,000-£150,000 ychwanegol i barhau â'n gwaith ar y cyd ar hyrwyddo prynu nwyddau a gwasanaethau a wneir yng Nghymru a allai fod yn debyg i'r model Gwyddelig llwyddiannus, gan helpu i gadw arian yn yr economi leol – sy'n berthnasol i ymrwymiad rhif 10 y Cytundeb Cydweithio.
- £80,000 ychwanegol ar gyfer archwilio strwythurau gorau yn y dyfodol ar gyfer mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd yn rhanbarth Arfor ac i bartneriaeth ar draws cymoedd de Cymru - sy'n berthnasol i ymrwymiad rhif 26 y Cytundeb Cydweithio.
- £111,500 ychwanegol i archwilio y cyfraniad y gallai sefydlu Ysgol Lywodraethu Genedlaethol ei wneud er mwyn sicrhau newid sylweddol o ran sut y gellir mynd ati’n ymarferol i wireddu’r syniad o Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru - sy'n berthnasol i ymrwymiad rhif 27 y Cytundeb Cydweithio.
- Mae ymrwymiad ar y cyd hefyd i fonitro'n agos y gofynion cyllidebol ar gyfer cyflawni ymrwymiad rhif 1 y Cytundeb Cydweithio ar Brydau Ysgol Am Ddim.

# Dylanwad ar feysydd eraill

Mae nifer o feysydd y tu hwnt i'r Cytundeb Cydweithio lle rydym wedi gallu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyllideb-derfynol-2023-i-2024-papur-y-cyd-llywodraeth-cymru-a-phlaid-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

cytuno ar ddyraniadau ariannol ychwanegol:

- Refeniw ychwanegol o £1m ar gyfer 2023 i 2024 ar gyfer y Gymraeg – sy'n gysylltiedig ag ymrwymiad rhif 36 y Cytundeb Cydweithio ac fel rhan o gefnogaeth i ddeall a pheilota ymyriadau mewn ymateb i ganlyniadau Cyfrifiad y Gymraeg 2021 yn Sir Gaerfyrddin ac ardaloedd cyn-gadarnleoedd diwydiannol Cymoedd y Gorllewin. Gallai'r cyllid ychwanegol hwn gael ei ddarparu i weithio mewn partneriaeth ag eraill i'w ddefnyddio i ddiogelu a thyfu'r iaith mewn cymunedau sy'n hanfodol i'w dyfodol.
- Gan adeiladu ar y pecyn o fesurau yn y Cytundeb Cydweithio ar ail gartrefi ac i wella argaeledd a fforddiadwyedd tai mewn cymunedau lleol i'r rhai ar incwm lleol, yn ogystal ag wrth ymateb i effaith costau byw, rydym yn bwriadu datblygu pecyn cymorth newydd ar gyfer tai.

  Gyda hyn mewn golwg, roedd tai yn rhan allweddol o ddyraniadau Cyfalaf Trafodiadau Ariannol ac mae'r rhan fwyaf o ddyraniadau wedi'u gwneud i'r Prif Grŵp Gwariant Newid Hinsawdd.

  Mae hyn yn cynnwys £20m yn 2023 i 2024 ac £20m yn 2024/2025 o Gyfalaf Trafodiadau Ariannol i helpu'r rhai sy'n cael trafferthion morgais yn gynnar er mwyn eu galluogi i aros yn eu cartrefi.

  Mae dyraniad o £40 miliwn yn 2023 i 2024 a £19m yn 2024/25 hefyd wedi'i wneud tuag at gefnogi darparu tai cymdeithasol newydd carbon isel. Bydd cymysgedd o fenthyciadau tymor byr a hirdymor yn cael eu darparu i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i annog parhad adeiladu tai.

  Byddwn yn sicrhau bod y cynigion Cyfalaf Trafodiadau Ariannol hyn yn gweithredu'n effeithiol gyda'n gwaith i sefydlu'r Cwmni Adeiladu Cenedlaethol, Unnos, ymrwymiad rhif 5 y Cytundeb Cydweithio.

  Bydd opsiynau pellach i gefnogi'r rhai mewn trafferthion ariannol i aros yn eu cartrefi yn ystod yr argyfwng costau byw presennol yn ogystal ag i'r rhai sy'n

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyllideb-derfynol-2023-i-2024-papur-y-cyd-llywodraeth-cymru-a-phlaid-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

dymuno prynu cartref ond sy'n cael eu dal gan renti uchel yn ganolbwynt trafodaeth ac ymgysylltu pellach rhwng y Gweinidog Newid Hinsawdd a'r Aelod Dynodedig. Bydd hyn, yn ogystal â'n hymrwymiad i archwilio'r opsiynau ar gyfer argaeledd morgeisi lleol, hefyd yn cynorthwyo'n fawr yn ein nod o fynd i'r afael ag ail gartrefi a thai anfforddiadwy yn ein cymunedau i bobl leol ar incwm lleol.

- Byddwn yn darparu £750,000 o refeniw ychwanegol, wedi'i rannu dros y ddwy flynedd ariannol nesaf, ar gyfer y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff – ymyrraeth iechyd sy'n cefnogi pobl i wneud a chynnal dewisiadau ar gyfer ffordd iachach o fyw a mesur ataliol hanfodol.
- Byddwn yn darparu £150,000 o refeniw ar gyfer 2023-24 i ddarparu mynediad am ddim i deuluoedd incwm isel ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2023 yn Sir Gâr.
- Byddwn yn darparu dyraniadau newydd i sicrhau bod ein dyheadau a’n safbwynt a rennir ar bwysigrwydd Prydau Ysgol am Ddim yn cael ei gynnal a’i gryfhau yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw.

## Meysydd blaenoriaeth ar gyfer 2023 i 2024

Yn ogystal â'r pwysau parhaus o dâl yn y sector cyhoeddus, ac fel rhan o'r berthynas gyllidebol barhaus, nodwyd y meysydd canlynol fel meysydd blaenoriaeth i Blaid Cymru i'w trafod os bydd unrhyw symiau canlyniadol pellach gan Lywodraeth y DU:

- Cynnydd yn y Lwfans Cynhaliaeth Addysg
- Ymestyn cymhwysedd i Brydau Ysgol Am Ddim mewn ysgolion uwchradd
- Ymestyn y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau

## Atodiad A: Testun o'r Cytundeb Cydweithio -

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyllideb-derfynol-2023-i-2024-papur-y-cyd-llywodraeth-cymru-a-phlaid-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## mecanweithiau

Roedd y Cytundeb Cydweithredu a lofnodwyd ar 1 Rhagfyr 2021 yn cynnwys y paragraffau canlynol ar y gyllideb yn y ddogfen mecanweithiau:

> “ Darperir adnoddau fel y cytunwyd ar gyfer y Cytundeb Cydweithio a chaiff y trosolwg o’r gwaith o gyflawni’r Cytundeb, a’r dyraniadau cyllidebol ar ei gyfer, ei fonitro ar y cyd drwy Bwyllgor Cyllid. Bydd aelodau’r Pwyllgor hwn yn cynnwys y Gweinidog sy’n gyfrifol am Gyllid ac aelod dynodedig perthnasol Plaid Cymru. Penderfynir maes o law ar amlder y cyfarfodydd ond cânt eu cynnull yn rheolaidd yn y cyfnod cyn gweithdrefnau’r Senedd ar gyfer y Gyllideb flynyddol, ac adeg unrhyw drafodaethau ar gyllidebau atodol a thanwariant / addasiadau diwedd blwyddyn.
>
> “ Bydd cylch cyllideb tair blynedd yn sail i’r Cytundeb hwn. Byddai unrhyw adnoddau ychwanegol yn cael eu nodi a’u hystyried ar y cyd o flwyddyn i flwyddyn gan Blaid Cymru a Llywodraeth Cymru yng nghyd-destun y materion a nodir yn y Cytundeb Cydweithio.
>
> “ Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ymgynghori a chydweithio â Phlaid Cymru drwy gydol y broses ddatblygu a chraffu ar bob cam o gylch y Gyllideb flynyddol.
>
> “ Ar y sail y bydd yr ymrwymiad uchod yn sicrhau cyllid priodol ar gyfer y rhaglen bolisi a rennir ac yn dylanwadu ar faterion cyllidebol eraill, mae Plaid Cymru yn cytuno i hwyluso’r broses o basio Cyllidebau Blynyddol ac Atodol gydol oes y Cytundeb hwn.
>
> “ Mae gan Lywodraeth Cymru weithdrefnau wedi’u hen sefydlu ar gyfer monitro’r defnydd o arian sy’n cael ei ddyrannu drwy’r broses gyllidebol, ac adrodd ar y defnydd hwnnw. Bydd y gweithdrefnau hyn yn berthnasol yn yr un modd i arian a ddyrennir o dan y Cytundeb hwn. Bydd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyllideb-derfynol-2023-i-2024-papur-y-cyd-llywodraeth-cymru-a-phlaid-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

> cyfrifoldebau'r Ysgrifennydd Parhaol fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu yn parhau i gwmpasu holl wariant Llywodraeth Cymru. ”

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyllideb-derfynol-2023-i-2024-papur-y-cyd-llywodraeth-cymru-a-phlaid-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.